

<b>Ymyrraeth</b>	<b>Cynnig Casnewydd</b>		<b>Gwyrdd</b>	Cynnydd yn unol â'r targed ar hyn o bryd	
			<b>Melyn</b>	Cynnydd heb fwrw'r targed, ond yn gyrraeddadwy o hyd	
<b>Yn Arwain</b>	Y Cyngorydd Jane Mudd a Steve Ward	<b>Cyfnod Adrodd</b>	Chwarter 4 2020-21	<b>Coch</b>	Cynnydd ymhell o fwrw'r targed

<b>Prif Gyflawniadau a Llwyddiannau</b>
Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, cytunwyd i adeiladu canolfan hamdden a lles newydd ar lan yr afon a chael gwared ar safle Canolfan Casnewydd er mwyn creu campws canol dinas newydd ar gyfer Coleg Gwent.
Sicrhawyd grant o £8.75m gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a grant o £1.5m gan Lywodraeth Cymru i helpu i droi Pont Gludo Casnewydd yn atyniad pwysig i dwristiaid. Mae'r gwaith yn cynnwys atgyweirio a chadw'r strwythur ac agor canolfan ymwelwyr newydd ar y safle.
Llywodraeth Cymru yn dewis Casnewydd fel awdurdod lleol peilot ar gyfer prosiect y Cynllun Ynni Ardal Leol, gan ddarparu map ffordd o sut y bydd y ddinas yn datgarboneiddio ei systemau ynni yn unol ag ymrwymiad 2050 Llywodraeth y DU.
Adfywio canol y ddinas: <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r gwaith ar y Farchnad Dan Do yn mynd rhagddo'n dda. Mae 25% o'r gwaith ailwampio eisoes wedi'i gwblhau a disgwylir i'r cyfan gael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn, yn unol â'r targed. Mae trafodaethau rhagarweiniol yn cael eu cynnal o ran ailddatblygu gofod gwag ychwanegol yn y farchnad.</li> <li>Yr Hyb ar Stryd y Felin – 50.000 troedfedd sgwâr o ofod swyddfa gradd A yng nghanol y ddinas ar y trywydd iawn i'w gwblhau yn haf 2021.</li> <li>Disgwylir i ganolfan dechnoleg gydweithredol Tramshed agor yn yr hen Orsaf Wybodaeth ym mis Medi 2021.</li> <li>Mae'r gwaith o ailwampio treftadaeth Arcêd y Farchnad yn mynd rhagddo'n dda a disgwylir i'r gwaith allanol gael ei gwblhau yn haf 2021.</li> </ul>
Tai fforddiadwy newydd gan ddefnyddio unedau sydd ar gael yng nghanol y ddinas gan gynnwys Olympia House, fflatiau ar 195-198 Upper Dock Street, Charles Street, Albany Chambers a'r Central View arobryn ar Commerical Street.

<b>Mesuriadau Perfformiad Allweddol</b>	<b>Targed</b>	<b>Gwirioneddol</b>	<b>CMG</b>
Dangosyddion perfformiad newydd i'w datblygu yn dilyn adolygu'r ymyrraeth.			
<b>Cynlluniau ar gyfer y chwarter nesaf a'r dyfodol</b>			
Cwblhau adolygiad o ymyrraeth Cynnig Casnewydd.			
Rhaglen ymgysylltu sy'n cynnwys trigolion yn y prosiect ailddatblygu ar gyfer Pont Gludo Casnewydd.			
Datblygu cynigion a dyluniadau terfynol ar gyfer y ganolfan hamdden a lles cyn cyflwyno cais cynllunio llawn yn ddiweddarach eleni.			
Ystyried cyfleoedd ariannu dan Gronfeydd Codi'r Gwastad ac Adnewyddu Cymunedol y DU.			
<b>Prif Risgiau / Rhwystrau i gynnydd</b>	<b>Statws (U/C/I)</b>	<b>Camau Lliniaru / Y Cymorth Sydd ei Angen</b>	
Cylch gwaith grwpiau sy'n cyfrannu at ddatblygu dinasoedd yn gorgyffwrdd a diffyg eglurder ynghylch rolau.	C	Mapio a rhesymoli grwpiau rhanddeiliaid i egluro rolau wrth gyflawni gwaith Cynnig Casnewydd.	
Effeithiau Covid-19 ar ganol y ddinas a'r economi leol.	U	Gweithredu cynllun adfywio economaidd, gweithio fel partneriaid i nodi cyfleoedd newydd a cheisio cyllid.	